



YR EGLWYS
YNG NGHYMURU



THE CHURCH
IN WALES

Ysgol Eglwys Wirfoddol dan reolaeth Tremeirchion

Tremeirchion,

Llanelwy.

LL17 0UN

Esgobaeth : Llanelwy
Awdurdod Lleol : Sir Ddinbych.
Dyddiad yr Arolwg : Mawrth 12/13 2018.
Dyddiad yr Arolwg Flaenorol : Ionawr 2012.
Rhif unigryw yr ysgol : 663/3020.
Pennaeth : Mr Gethin Jones.
Arolygydd : Mr Neil Roberts.

Cyd-destun yr Ysgol

Mae Ysgol Tremeirchion yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg; ysgol wirfoddol dan reolaeth sy'n darparu addysg ar gyfer pentref Tremeirchion a'r ardal gyfagos. Sefydlwyd yr ysgol ym 1765. Adeiladwyd yr adeiliad presennol dros gant a hanner mlynedd yn ol ac fe'i hymestynnwyd yn 2003. Mae yna pedwar prif dosbarth ac mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn eang ac yn ddeniadol. Mae gan yr ysgol adnoddau da ar gyfer ei disgyblion. Ar hyn o bryd mae 73 o ddisgyblion ar y gofrester gan gynnwys 12 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae niferoedd yr ysgol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Nodwyd bod 18% o ddisgyblion gyda anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan dros 3% o ddisgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw 66% o'r disgyblion o cartrefi Cymraeg iaith cyntaf ac ychydig iawn o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

Mae'r Pennaeth wedi bod yn ei swydd ers mis Ionawr 2011. Ar hyn o bryd mae 4 o athrawon a 4 o gynorthwywyr cymorth dysgu.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn wedi'i dynnu allan o Addysg Grefyddol neu Addoli ar y Cyd.

Roedd arolygiad yr Eglwys yng Nghymru diwethaf yn Ionawr 2012.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn yn Ionawr 2018.

Mae hynodrwydd ac effeithiolrwydd Ysgol Tremeirchion fel Ysgol Eglwys yng Nghymru yn dda.

Mae Ysgol Tremeirchion yn lle dysgu Cristnogol cynnes a chroesawgar. Mae ethos cryf a sefydledig o gariad, gofal a pharch yn treiddio popeth mae'r ysgol yn bwriadu ei gyflawni. Nod yr ysgol yw darparu profiadau dysgu ysgogol a pleserus lle mae gwerthoedd Cristnogol yn ganolog i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae gweledigaeth Ysgol Tremeirchion yn gysylltiedig ag undod y teulu. Dewiswyd datganiad cenhadaeth yr ysgol – “ Un teulu gyda’n gilydd “ – gyda’r disgyblion er mwyn canolbwyntio ar yr agwedd hon. Nodi’r nod clir y weledigaeth hon o fewn amcanion dogfenedig yr ysgol fel y ganlyn : “ Ein gweledigaeth yw creu ysgol hapus; un teulu gyda’i gilydd; cefnogi ein gilydd; paratoi ein pobl ifanc gyda’r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu unigolion profiadol, gofalgar a hyderus yn barod i groesawu profiadau a heriau newydd “

Mae Ysgol Tremeirchion yn ysgol gynhwysol lle mae parch tuag at ei gilydd a’r gymuned ehangach yn cael ei annog a’i ddatblygu. Mae’r disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi’n gyfartal fel unigolion unigryw a’u hannog i ddatblygu eu potensial llawn. Mae’r plant yn cael ei cefnogi’n dda gan oedolion i fynegi eu barn a’u teimladau eu hunain. Mae’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a’u gofalu’n dda. Mae’r plant yn mwynhau’r ysgol ac yn dangos awydd cryf i ddysgu ac i’w gyflawni.

Mae gan Ysgol Tremeirchion gysylltiadau da gyda’r eglwys lleol. Mae’r cysylltiad hyn yn parhau i ddatblygu. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o leoliad cyfleus yr eglwys i hyrwyddo ei ethos Cristnogol.

Mae Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniadau pwysig i fywyd a ffocws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddi’r cyfleoedd i blant addoli Duw, myfyrio ar werthoedd yr ysgol ac i ddefnyddio’r Beibl i’w harwain yn eu gwaith a’u bywydau. Nod yr ysgol yw datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o’r ffydd Gristnogol a hefyd parchu crefyddau a diwylliannau eraill.

Mae yna ddangosyddion mai ysgol yr Eglwys yng Nghymru yw hwn, gyda arddangosfeydd, arteffactau, arwyddion a symbolau yn yr ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunedol. Fodd bynnag, mae angen diweddarau’r arwyddion ar flaen yr ysgol er mwyn i statws Eglwys yng Nghymru yr ysgol gael ei chydabod a’i weld yn gliriach i ymwelwyr.

Cryfderau

- Ethos Cristnogol sefydledig yr ysgol sy’n treiddio bywyd yr ysgol ac yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar, hapus ac ysgogol.
- Gweledigaeth ac arweinyddiaeth y Pennaeth sy’n cael ei gefnogi a’i hyrwyddo’n dda gan staff a llywodraethwyr.
- Y gofal a’r gefnogaeth a ddarperir i’r holl ddisgyblion fel y gallant sicrhau eu potensial llawn.
- Cysylltiadau da rhwng yr ysgol, yr eglwys a’r gymuned leol.

Ffocws i ddatblygu

- I adolygu'r cynllun gwaith Addysg Grefyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol yr ysgol ac yn cydymffurfio a gofynion y cwricwlwm.
- I ddatblygu ac ymgorffori rol disgyblion yn y broses o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso Addoli ar y Cyd.
- I ystyried gweithdrefnau mwy ffurfiol i adrodd i'r Corff Llywodraethol ar datblygiadau mewn Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.
- I ddiweddarau'r arwyddion wrth fynedfa'r ysgol i gydnabod yn glir ei statws fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru i bob ymwelydd.

Mae'r ysgol , trwy ei chymeriad Cristnogol nodedig, yn dda at fodloni anghenion pob dysgwr Mae cyfraniad Addysg Grefyddol at Gymeriad Cristnogol yr ysgol yn dda.

Mae gan Ysgol Tremeirchion ethos Cristnogol cryf a gofalgwr sy'n sail i fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diogel, cymdeithasol ac ysgogol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles staff a disgyblion. Rhoddir cryn bwyslais wrth hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a datblygu gwerthoedd cadarnhaol. Mae profiadau dysgu yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cyfrannu at fywyd y gymuned ehangach.

Nodwedd gryf o'r ysgol yw'r ethos teuluol lle mae cariad a pharch at pawb yn amlwg. Mae'n gymuned gynhwysol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae'r awyrgylch teuluol yn cael ei gryfhau gan berthnasoedd da rhwng disgyblion a staff. Mae ffocws clir ar ofal bugeiliol. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel aelod pwysig o deulu'r ysgol a'i hannog i gyrraedd eu potensial llawn. Anogir plant i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a datblygu'r sgiliau angenrheidiol a fydd yn eu helpu i fod yn aelodau effeithiol o'r gymuned. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos gofal mawr tuag at blant iau.

Mae gwerthoedd Cristnogol wedi'u hymgorffori ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad y plant. Mae'r disgyblion yn dangos hyder, yn frwdfrydig i ddysgu ac yn chroesawgar i ymwelwyr. Mae ardal wrth y brif fynedfa yn dangos gwerthoedd yr ysgol. Mae gan bob ystafell dosbarth ardal sydd gyda ffocws Cristnogol gyda gwerthoedd, arteffactau, symbolau, gweddiau ac enghreifftiau o gwaith Addysg Grefyddol. Mae'r ysgol yn gweithio i gwblhau ardal o'r ardd fel lle arbennig lle y gellir disgyblion ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad ysbrydol, myfyrdod tawel a gweddi.

Mae gwerthoedd, nodau a datganiad cenhadaeth yr ysgol yn cael eu harddangos ar wefan yr ysgol , yn y prospectws ac ar bob gohebiaeth. Mae'r wefan hefyd yn cydnabod y cysylltiadau agos rhwng yr eglwys leol, Corpus Christi, a'r ysgol. Mae'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned hefyd yn gryf iawn. Mae'r ficer ac ymwelydd yr Esgob yn ymweld a'r ysgol yn rheolaidd i arwain Addoli ar y Cyd a

chyngori ar faterion crefyddol. Maent yn chwarae rolau pwysig wrth ddatblygu cysylltiadau rhwng yr ysgol, yr Esgobaeth a'r gymuned leol.

Mae'r disgyblion yn ymweld a'r eglwys fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Grefyddol ac i ddathlu achlysuron pwysig – Diolchgarwch, Nadolig, Sul y Mamau a'r Pasg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal ei Eisteddfod yn yr eglwys.

Mae gan Ysgol Tremeirchion berthynas dda gyda rhieni ac aelodau'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol ym mywyd y pentref. Achlysur cofiadwy oedd "Calendr Adfent fyw Tremeirchion". Roedd ffenestri'n cael eu goleuo bob dydd o gwmpas y pentref i nodi'r dyddiau i Diwrnod Nadolig. Gwahoddwyd aelodau o'r gymuned i weld y ffenest yn cael ei datgelu. Canodd y disgyblion gasgliad o garolau i nodi'r achlysur arbennig yma.

Mae ethos Cristnogol cryf Ysgol Tremeirchion wedi datblygu ochr wrth ochr a'i ethos Cymreig sefydledig. Rhoddir ffocws amlwg i agweddau pwysig o ddiwylliant Cristnogol Cymreig a nodweddion pwysig y calendr Litwrgaidd. Mae'r ysgol yn datblygu medrau dwyieithog disgyblion yn effeithiol, gan eu galluogi i gyfathrebu a hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddir cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn profiadau sy'n adlewyrchu ac yn hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant yn effeithiol o egwyddorion masnach deg, byw'n iach, ailgylchu a stiwardiaeth byd Duw.

Caiff disgyblion eu hannog i helpu eraill mewn angen. Mae'r ysgol wedi ymrwmo i gefnogi ystod o elusennau, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r rhain wedi cynnwys – Gweithrediad Plentyn Nadolig, gefnogi'r banc bwyd lleol, Plant mewn angen a Sant Kentigern.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor Eco yn ymwneud yn weithredol a datblygiad yr ysgol. Mae'r aelodau'r pwyllgorau yma yn gweithio'n frwdfrydig wrth ystyried materion pwysig sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol.

Cyflawnir yr holl ofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol yn llawn.

Mae gan Addysg Grefyddol broffil uchel yng nghwricwlwm yr ysgol. Cyflwynir gwersi fel rhan o'r amserlen wythnosol reolaidd. Mae strategaethau cynllunio trylwyr yn gwneud y gorau o gysylltiadau trawsgwricwlaidd. Dewisir themau i gysylltu yn agos gyda gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Mae cynllunio yn cynnwys agweddau o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Defnyddir technoleg gwybodaeth yn dda ac yn ddychmygus. Mae gweithdrefnau cynllunio yr ysgol hefyd yn defnyddio ystod o arddulliau dysgu ac addysgu sy'n anelu at gynnwys disgyblion mewn gwersi Addysg Grefyddol.

Mae elfen eglwys gryf mewn Addysg Grefyddol. Mae'r cynllun gwaith yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r disgyblion ymestyn eu dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys – ysgrifennu gweddiau, ymweiliadau a'r eglwys gadeiriol, yr eglwys a'r capel, Saint Cymreig, storïau Cristnogolpwysig, perthyn i wahanol grefyddau a deall crefyddau a mannau addoli.

Tra'n cynnal ei ethos Cristnogol, mae'r ysgol yn annog ei disgyblion i ddeall pam a sut mae pobl yn addoli ac yn cynnyddu eu hymwybyddiaeth o grefyddau a diwylliannau eraill. Mae Ysgol Tremeirchion yn ymgorffori ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn dathlu ac yn parchu gwahanol grefyddau a diwylliannau.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb mewn Addysg Grefyddol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac maent yn gwrando'n dda. Dangosant wybodaeth dda am agweddau allweddol Cristnogaeth a'r Beibl ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ddiwrnodau pwysig yn y calendr Cristnogol.

Anogir disgyblion i ofyn cwestiynau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, myfyrio ar y negeseuon y maent wedi'u clywed ac yn ystyried sut y maent yn cael effaith ar eu bywydau eu hunain a'r rhai o'u cwmpas. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol a'u hoedran a'u gallu ac yn dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd.

Mae amrywiaeth o adnoddau yn rhoi cefnogaeth cryf i Addysg Grefyddol. Mae'r pwnc yn cael ei fonitro fel rhan o raglen fonitro cynlluniedig yr ysgol. Y Pennaeth a'r cydlynnydd Addysg Grefyddol sydd yn arwain y broses fonitro. Maent wedi nodi bod gan yr ysgol gynlluniadau i adolygu darpariaeth Addysg Grefyddol fel rhan o chynllunio datblygu'r ysgol.

Mae Addysg Grefyddol yn gwneud cyfraniad pwysigi fywyd a gwaith Ysgol Tremeirchion ac i datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae effaith addoli ar y cyd ar y gymuned ysgol yn dda

Mae Addoli ar y Cyd yn Ysgol Tremeirchion yn dilyn holl ofynion statudol.

Y Pennaeth yw'r cydlynnydd Addoli ar y Cyd. Mae addoli yn cael ei gyflwyno bob dydd. Cynhelir addoliad ysgol gyfan ar Ddydd Llun a Dydd Gwener. Gwneir defnydd da o'r eglwys. Mae addoli yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddod ynghyd fel un teulu Cristnogol. Cynhelir addoliad dosbarth ar ddiwrnodau eraill.

Mae addoliad yn darparu ffocws gwerthfawr ar gyfer y diwrnod ac mae'n adlewyrchu ethos Anglicanaidd yr ysgol. Mae'n brofiad positif i ddisgyblion ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ethos a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Mae aelodau'r staff yn arwain addoli yn rheolaidd. Mae'r ficer a'r Ymwelydd yr Esgob yn arwain addoli ar adegau.

Mae'r disgyblion yn cynorthwyo gyda addoli a hefyd yn arwain gwasanaethau ar adegau pwysig yn y calendr Cristnogol. Gwahoddir rhieni i fynychu'r achlysuron arbennig hyn. Mae'r plant yn darllen o'r Beibl, yn defnyddio amrywiaeth o weddiau a chadarnhadau, ac yn cael amser i fyfyrio ar neges y dydd sy'n gysylltiedig a'r themau addoli. Mae disgyblion hefyd wedi ysgrifennu eu gweddiau eu hunain sydd wedi'u rhannu a chymuned yr ysgol. Mae plant yn adrodd Gweddi'r Arglwydd a hefyd yn gweddio gyda'i gilydd cyn amser cinio ac ar diwedd y diwrnod ysgol. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn addoli a drefnir gan Agor y Llyfr, sy'n ymweld a'r ysgol bob pythefnos. Mae rhaglen o themau wedi'i chynllunio'n dda sy'n gysylltiedig gyda gwerthoedd yr ysgol ac yn rhoi profiad ychwanegol i'r plant o ffydd ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at y Beibl.

Mae statws a ethos Cymreig yr ysgol yn cael eu hyrwyddo yn ystod addoli mewn gweddiau, caneuon, ymatebion a chyfarwyddiadau. Rhoddir sylw sylweddol i ddathlu achlysuron pwysig yn hanes a diwylliant Cristnogol Cymru. Mae'r ysgol yn falch o'i statws Cymreig a'i ethos Cristnogol ac yn dathlu treftadaeth Gristnogol Cymru yn effeithiol.

Mae gwerthoedd Cristnogol wrth galon Ysgol Tremeirchion. Adlewyrchir hyn yn ei darpariaeth ar gyfer Addoli ar y Cyd. Mae addoli wedi'i gynllunio'n dda ac mae'r themau yn cael eu cydbwysu'n ofalus i gynnwys gwerthoedd yr ysgol ac sydd hefyd yn gysylltiedig a'r calendr Litwrgaidd. Amlygir gwerthoedd a dysgeidiaeth Cristnogol trwy storïau o'r Beibl. Anogir plant i fodelu eu hymddygiad a'u hagweddau ar y gwerthoedd a'r dysgeidiaethau hyn a'u cysylltu a'u bywydau eu hunain. Mae addoliad yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar ddysgeidiaeth Duw. Mae plant yn rhannu eu meddyliau ac yn myfyrion ar faterion neu bryderon sydd ganddynt.

Mae addoliad yn canolbwyntio ar eiliadau pwysig ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae cydnabod a dathlu cyflawniadau yn rhywbeth y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda. Mae llwyddiant ac amrywiaeth yn cael eu dathlu'n briodol. Rhoddir gwobrau " Seren yr Wythnos " i'r disgyblion fel cydnabyddiaeth o'u cyflawniadau yn ystod addoliad dathlu wythnosol.

Mae addoli yn adlewyrchu traddodiadau Anglicanaidd. Adlewyrchir ethos Cristnogol yr ysgol wrth ddarparu pwynt ffocws gyda symbolau Cristnogol, cerddoriaeth ac emynau, ymatebion a gweddiau a chyfnod i fyfyrion. Mae canwyll yn cael ei oleuo i nodi dechrau a chau addoli. Mae'r plant yn barchus, yn gwrandao ac yn ymateb yn dda ac yn cymryd rhan yn ddeallus iawn. Mae'r disgyblion yn canu'n dda. Mae'r ysgol wedi cynhyrchu ei lyfr emynau ei hun a ddefnyddir yn ystod addoliad. Mae'r plant hefyd yn mwynhau canu can yr ysgol, " Can Ysgol Tremeirchion ."

Mae gan yr ysgol adnoddau da i gefnogi addoliad. Gwneir defnydd da o arddangosfeydd, arteffactau i hyrwyddo diddordeb a dealltwriaeth. Gwneir pob cyfle i sicrhau bod gweithredoedd addoli yn rhyngweithiol pan fydd hynny'n briodol.

Mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad pwysig i fywyd a gwaith Ysgol Tremeirchion ac yn gwella ei ethos Cristnogol.

Mae effeitholrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwys yn dda

Mae Ysgol Tremeirchion wedi'i arwain yn dda gan y Pennaeth. Mae'n agored, yn glir ac yn benderfynol i symud yr ysgol ymlaen i ddatblygu ei ethos a'i statws Cristnogol. Mae wedi bod yn yr ysgol am dros saith mlynedd ac mae wedi sicrhau bod natur Gristnogol yr ysgol wedi'i chyfathrebu a'i fodelu i ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr. Mae ei weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol wedi treiddio drwy'r ysgol gyfan – i staff, llywodraethwyr a theulu'r ysgol estynedig, sydd oll yn rhannu'r weledigaeth hon. Mae'r Pennaeth, y corff llywodraethol a'r staff yn gweithio'n effeithiol wrth hyrwyddo ethos a gwerthoedd yr ysgol.

Mae'r holl staff yn ymwneud a chynllunio strategol yr ysgol ac yn cydweithio'n dda i ddarparu'r addysg, y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau i bob disgybl iddynt gyflawni eu potensial. Mae'r pwyslais ar weledigaeth yr ysgol o undod y teulu – ei ffocws " Un teulu gyda'n gilydd ." Mae'r ethos yn un lle mae pob plentyn yn derbyn gofal ac yn cael ei gefnogi mewn amgylchedd diogel, cariadus a hapus trwy hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol.

Mae aelodau'r staff yn ymwybodol o'u rolau ac yn dangos yn fwy hyderus wrth ddeall eu cyfrifoldebau, gan gynnwys eu hunain mewn gweithgareddau i symud yr ysgol ymlaen.

Mae'r cydlynwyr Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd wrth ddatblygu darpariaeth a chanolbwyntio ar ddatblygu monitro a gwerthuso sy'n cael ei hadolygu fel rhan o raglen gytunedig yr ysgol. Mae'r dull yma wedi effeithio'n gadarnhaol ar aelodau staff ac ar yr ymgyrch i wella safonau.

Mae'r Pennaeth a'r staff yn sicrhau bod Addysg Grefyddol, Addoli ar y Cyd a'r cwricwlwm cyffredinol yn cael eu hysbysu gan werthoedd Cristnogol sy'n cyfrannu at ymddygiad da ac ymagweddau dysgwyr ac at eu datblygiadau academaidd, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o bwrpas a gweledigaeth Gristnogol Ysgol Tremeirchion. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithio'n dda i sicrhau bod ei ddatblygiaeth yn flaenoriaeth uchel. Mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ysgol a datblygu safonau. Maent yn gwbl ymrywmedig i weithio fel rhan o deulu'r ysgol. Mae'r cadeirydd yn cyfarfod gyda'r Pennaeth i gynnig cymorth, cyngor ac anogaeth ac i helpu i nodi meysydd i'w datblygu.

Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol yr holl staff yn cael ei ystyried a'i flaenoriaethu yn ol yr angen. Cynghorir ac anogir staff i fynychu cyrsiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol, Addoli ar y Cyd a materion pwysig eraill.

Mae'r Pennaeth yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cysylltiadau da gyda'r eglwys a'r gymuned leol. Mae'r ddau yn chwarae rolau pwysig iawn ym mywyd yr ysgol. Mae dealltwriaeth glir ymhlith rhieni ac aelodau'r gymuned bod yr ysgol yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Pennaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'r Esgobaeth, ysgolion cywstwr lleol ac ysgolion eraill yr Eglwys yng Nghymru i drafod a datblygu materion pwysig.

Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i fywyd yr ysgol. Mae gan Ysgol Tremeirchion bolisi "drws agored" a chaiff rhieni eu hannog i ymweld a'r ysgol yn rheolaidd. Mae cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda iawn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni yn cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd eu plant. Mae gan Addysg Grefyddol a materion pwysig eraill ffocws clir mewn adroddiadau ysgrifenedig ac yn nosweithiau rhieni.

Mae Ysgol Tremeirchion wedi'i harwain a'i reoli'n dda gyda gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac sy'n amlwg yn seiliedig ar werthoedd Cristnogol.

Mae'r ysgol wedi cyflawni'r argymhellion o'r arolygiad Adran 50 diwethaf yn 2012.

Hoffwn ddiolch i'r Pennaeth, staff, llywodraethwyr, disgyblion a'r rhieni am eu croeso cynnes a'u cydweithrediad.

Neil C. Roberts.

Arolwg o dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2013 - Report under Section 50 of the Education Act 2013

Holiadur Rhieni - Parents' Questionnaire

Yr oedd 17 ymateb - There were 17 responses

	YDWYF	NAC YDWYF	
A ydych chi'n ymwybodol mai Ysgol Eglwys yw hon?	17		<i>Are you aware that this is a Church school?</i>
A ydych o'r farn fod yr ysgol yn sefydliad sydd wedi ei adeiladu ar sylfaen Gristnogol glir?	17		<i>Do you believe that the school is a place which is built upon clear Christian values?</i>
Ysgol Eglwys, sef ysgol gyda chymeriad Cristnogol, yw hon. A oedd y ffaith yma yn bwysig wrth i chi dewis ysgol i'ch plentyn / plant?	17		<i>This is a Church School, that is a school with a Christian character. Was this fact important when you were choosing a school for your child / children?</i>

	Cytuno'n llwyr	Cytuno	Y naill na'r Llall	Anghytuno	Anghytuno'n llwyr	
Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn perthyn i'r ysgol	10	6	1			<i>The school has a distinctive Christian character</i>
Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn gwneud cyfraniad awyddocaol i addysg y disgyblion.	9	7	1			<i>The school's distinctive Christian character makes a significant contribution to pupils' education.</i>
Ym marn y disgyblion, mae'r addoli ar y cyd yn brofiad gwerthfawr	7	6	4			<i>Pupils find collective worship a valuable experience</i>
Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r eglwys leol a chymunedau ffydd eraill.	12	5				<i>The school has effective links with the local church and other faith communities.</i>
Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn dda am y gwaith a wna'r disgyblon mewn Addysg Grefyddol	8	5	4			<i>The school keeps parents well informed about the work pupils do in Religious Education</i>
Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ofalu am Greadigaeth Duw (yr amgylchedd), yn ogystal â'n nhw eu hunain.	9	7	1			<i>The school encourages pupils to care for God's Creation (the environment), as well as for themselves.</i>
Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ystyried pobl mewn gwledydd eraill, a sut fedran nhw eu cynorthwyo pan bo angen.	11	6				<i>The school encourages pupils to consider people in other countries, and how they can help assist them, when help is required.</i>

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol.	8	6	3			<i>The school ensures links are made with the local community.</i>
	Strongly Agree	Agree	Neither	Disagree	Strongly Disagree	